



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Coronafeirws (COVID-19): cymorth i'r trydydd sector

Cymorth i'r trydydd sector ac elusennau yn ystod y cyfnod o darfu yn sgil COVID-19.

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Tachwedd 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cefndir

Grant adfer gwirfoddoli yn sgil y coronafeirws

Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector Llywodraeth Cymru

Rhedeg eich sefydliad

Cyllido Cymru

Gwirfoddoli

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Cefndir

Gall elusennau a'r trydydd sector gael cymorth yn ystod y cyfnod o darfu yn sgil y coronafeirws (COVID-19).

Rydym hefyd yn archwilio pa gymorth pellach y gallwn ei ddarparu. Caiff y dudalen hon ei diweddarau pan fydd cyhoeddiadau am gyllid yn cael eu gwneud.

Grant adfer gwirfoddoli yn sgil y coronafeirws

Mae cyllid grant ar gael i bartneriaethau rhwng cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector i gefnogi adferiad gwirfoddoli yn sgil y pandemig COVID-19.

Darllen am y grant a sut i wneud cais.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector Llywodraeth Cymru

Ar 27 Mawrth, [cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa gychwynnol](#) o £24 miliwn i gefnogi'r sector gwirfoddol i ymateb i bandemig coronafeirws.

Bydd [Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector Llywodraeth Cymru](#) yn cefnogi'r gweithgarwch canlynol:

1. Helpu elusennau a sefydliadau yn y trydydd sector yn ariannol:
 - drwy ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector sydd angen help i ymdopi
 - â'r argyfwng hwn er mwyn talu eu biliau a lliniaru problemau llif arian (Cronfa Cadernid y Trydydd Sector)
2. Helpu mwy o bobl i wirfoddoli a gwasanaethau gwirfoddoli:
 - drwy gefnogi sefydliadau'r trydydd sector yn y gymuned sy'n cydgysylltu'r ymateb aruthrol yr ydym wedi'i weld ar draws Cymru i'r cais am wirfoddolwyr
 - gan eu helpu i dalu treuliau personol eu gwirfoddolwyr (Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol)
3. Cryfhau seilwaith hanfodol y Trydydd Sector:
 - drwy alluogi rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru i gynyddu eu capasiti dros dro i gefnogi'r sector, gan gynnwys datblygu gwefan Gwirfoddoli Cymru (Cronfa Galluogi Seilwaith y Trydydd Sector).

Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru

Mae'r gronfa hon wedi'i chynllunio i gefnogi'r mudiadau trydydd sector hynny sydd angen cymorth ariannol i oroesi'r argyfwng presennol yn bennaf oherwydd cwmp digynsail yn eu hincwm codi arian a rhoddion.

Bydd CGGC yn gweinyddu'r gronfa yma ac bydd yn gymysgedd o 75% o grant a 25% o fenthyciad di-log a fydd ar gael i fudiadau corfforaethol yn y trydydd sector tuag at gostau gwariant refeniw parhaus, gan gynnwys cyflogau. Gall mudiadau wneud cais am hyd at £75,000.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o [LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru), efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Waeth beth yw'r rheswm dros y cwmp mewn incwm, mae'r gronfa hon hefyd yn cynnig opsiwn benthyciad pontio o hyd at £25,000 i helpu mudiadau trydydd sector tra eu bod yn aros am ad-daliadau o gyflogau seibiant gan y Llywodraeth.

Manylion ar y gronfa a sut i wneud cais ar wefan CGGC.

Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol

Gwnaeth Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol ar ei ffurf wreiddiol gau i geisiadau ar **7 Awst 2020**.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio a gwasanaethau gwirfoddol ailddechrau rhai gweithgareddau wyneb yn wyneb, bydd Llywodraeth Cymru a CGGC yn agor cam newydd o'r cynllun grantiau argyfwng i alluogi'r sector i fynd i'r afael â gwahanol heriau'r pandemig wrth iddo fynd rhagddo.

O **17 Awst 2020** ymlaen, bydd cyllid grant ar gael yn y cam newydd i helpu'r sector i fynd i'r afael â'r heriau sy'n codi nawr wrth inni ddechrau adfer o'r pandemig.

Nod y cyllid hwn fydd cyfrannu tuag at adferiad teg a chyfiawn yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar helpu sefydliadau gwirfoddol i barhau i ddarparu cymorth brys i gymunedau, yn ogystal â diwallu anghenion newydd megis iechyd meddwl a lles cymdeithasol.

Mae manylion y newidiadau i'r gronfa a sut i wneud cais ar gael ar wefan CGGC.

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn gynllun grant cyfalaf sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel; grantiau bach dan £25,000 a grantiau mwy o hyd at £250,000. Gellir defnyddio'r grantiau i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac yn cael eu defnyddio'n helaeth ganddynt.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r Rhaglen yn agored i fudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd, sicrhau ffyniant i bawb a datblygu cymunedau cadarn lle mae pobl yn cael eu cynnwys a'u grymuso. Mae disgwyl i bob ymgeisydd weithio gyda phartneriaid a all ddod o'r sector cyhoeddus, preifat neu'r trydydd sector.

Mewn ymateb i coronafeirws, bydd y grant o dan £25,000 yn awr yn caniatáu gwariant ar brynu neu amnewid offer. Gall hyn brynu offer TGCh, er enghraifft, i alluogi staff a gwirfoddolwyr i weithio o bell a pharhau i ddarparu gwasanaethau.

Sut i wneud cais.

Rhedeg eich sefydliad

Mae **rhagor o ganllawiau a chymorth ar gyfer rhedeg eich sefydliad** ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys meysydd megis:

- cymorth ariannol a grantiau
- cymorth i gyflogeion
- rhyddhad ardrethi busnes

Cymorth i dalu staff y trydydd sector

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd sefydliadau, gan gynnwys elusennau, yn cael cymorth i'w helpu i dalu cyflogau.

Gwybodaeth am y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.

Defnyddio cronfeydd wrth gefn a chronfeydd dan gyfyngiad

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi **canllawiau i sefydliadau'r trydydd sector** ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a chronfeydd dan gyfyngiad i helpu sefydliad drwy'r argyfwng.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Canllawiau i gyflogwyr

Darllenwch y **canllawiau ar gyfer y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion: COVID-19**. Byddant yn eich cynghori ar ffyrdd o ddiogelu Cymru yn y gweithle:

- cynnal asesiadau risg
- helpu staff i weithio gartref
- cadw pellter corfforol
- profi, Orlhain, Diogelu yn y gweithle
- mesurau y gallwch eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Cyllido Cymru

Mae **Cyllido Cymru** yn blatfform chwilio am gyllid sydd wedi'i greu gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru i helpu elusennau, grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol i ddod o hyd i grantiau a chyfleoedd cyllid lleol o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng coronafeirws mae **categori cyllido corfonafeirws** newydd wedi'i greu er mwyn dwyn ynghyd arian sy'n cefnogi'r sector yn uniongyrchol yn y cyfnod hwn o angen.

Bydd hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr arian sydd ar gael sy'n ymdrin yn benodol â'r argyfwng coronafeirws.

Gwirfoddoli

Rydym yn annog sefydliadau trydydd sector i ddefnyddio Gwirfoddoli Cymru i recriwtio gwirfoddolwyr.

Ewch i **llyw.cymru/iach-a-diogel** i ddod o hyd i awgrymiadau a chynghor syml ar sut i fynd ati, yn ddiogel, i helpu rhywun sy'n aros gartref oherwydd coronafeirws. Gallai hyn fod yn gyfaill, yn aelod o'r teulu, yn gymydog neu'n rhywun yn eich cymuned.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae cyngor ar gael ynglŷn â sut y gallwch helpu pobl agored i niwed yn ddiogel yn ystod pandemig coronafeirws.

Edrychwch ar [Gwirfoddoli Cymru](#) i weld sut y gallwch gymryd rhan mewn gwirfoddoli yn eich cymuned leol.

Mae'n bosibl hefyd y bydd eich awdurdod lleol yn rhedeg cynlluniau gwirfoddoli mewn ymateb i COVID-19.

Mae Cyngorau Gwirfoddol Sirol hefyd yn rhoi cymorth ar y lefel leol – [chwiliwch ar wefan Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#).

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: hyfforddiant ar-lein

Bwriad y rheolau aros gartref newydd yw ein cadw'n ddiogel a diogelu'r GIG, ond nid yw pob cartref yn le diogel. I rai, bydd y cyfyngiadau symud yn cynyddu eu perygl o drais domestig, cam-drin emosiynol a rheolaeth drwy orfodaeth ac yn gwneud iddynt deimlo'n fwy ynysig.

Gallai'r rheolau newydd gynyddu pŵer a rheolaeth camdrinwyr, a golygu bod dioddefwyr prin yn cael cyfle i droi at eu rhwydweithiau cefnogi arferol megis gwaith, teulu neu grwpiau cymunedol.

Rydym eisiau bod unrhyw un sydd dal mewn sefyllfa i helpu, boed yn un o'r miloedd o wirfoddolwyr sy'n helpu'r rheini sy'n fwyaf agored i niwed, yn contractiwr brys, yn aelod o weithlu'r gwasanaeth post, neu'n weithiwr mewn siop leol neu archfarchnad, yn gallu adnabod arwyddion camdriniaeth ac yn gwybod sut i helpu'n ddiogel. Dyna pam ein bod wedi trefnu bod ein modiwl dysgu ar-lein yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gael i bawb (mesur dros dro yn ystod argyfwng y coronafeirws).

Ni fydd Cymru'n cadw'n dawel ynghylch trais neu gamdriniaeth.

Gellir mynd at ein modiwl hyfforddi ar-lein sy'n para 45 munud drwy fewngofnodi fel gwestai (guest log on) [hyfforddi ar-lein sy'n para 45 munud drwy](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

fewngofnodi fel gwestai (guest log on).

Ceir rhagor o wybodaeth ar **wefan Byw Heb Ofn**.

Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn ar gael 24 y dydd - ffoniwch 0808 8010 800 am ddim, anfonwch neges destun i 0786 007 7333, e-bostiwch **info@livefearfreehelpline.wales** neu **gallwch gael sgwrs fyw**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Coronafeirws \(COVID-19\): cymorth i'r trydydd sector](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cymorth-ir-trydydd-sector-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).